Rhaglen Ysgolion
HEDDLU CYMRU
WALES POLICE
Schools Programme

Cynllun Gwers:

# Edifar y Dydd

Addasrwydd Oedran: **12–14 oed / Blynyddoedd Ysgol 8–10**

Llinyn: **Cyffuriau a Sylweddau**

Pwnc: **Canabis – Meddu a Chyflenwi**

Mae gan ysgolion rôl ganolog i'w chwarae o ran lleihau perygl drwy ddarparu cyflwyniadau addysgol sy'n codi ymwybyddiaeth ynglŷn â niwed a chanlyniadau cyffuriau anghyfreithlon.

Drwy archwilio i beryglon cyffuriau a sylweddau, gall swyddogion helpu dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau sydd angen i adnabod peryglon a chanlyniadau posibl, aros yn ddiogel a cheisio cymorth os oes angen.

Sicrhewch fod y wers yn briodol ar gyfer anghenion dysgwyr o ran oed, aeddfedrwydd, iaith/delweddau a ddefnyddir, a'r ddealltwriaeth sydd angen. Yn ogystal â hyn, dylid ond cyflwyno'r wers hon os yw'r athro'n bresennol bob amser yn y dosbarth.

Dylai Swyddogion Heddlu Ysgolion sicrhau eu bod wedi trafod cynnwys y wers â'r athro dosbarth, ac ystyried unrhyw blant a allai fod yn agored i gynnwys i wers.

| **Cwricwlwm i Gymru**<br>**Maes Dysgu a Phrofiad (MDaPh): Iechyd a Lles** | |
|---|---|
| **Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig** | |
| **1. Mae datblygu iechyd a lles y corff yn arwain at fuddiannau gydol oes** | |
| a) Deall y ffactorau sy'n effeithio ar Les ac Iechyd Corfforol | |
| b) Datblygu arferion cadarnhaol gwybodus | ✓ |
| c) Eu hannog i fyw bywyd iach a gweithredol | |
| **2. Mae'r ffordd rydym yn prosesu ein profiadau ac yn ymateb iddyn nhw yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a'n lles emosiynol** | |
| a) Cysylltiadau rhwng profiadau, iechyd meddwl a lles emosiynol. Nid yw teimladau ac emosiynau'n sefydlog nac yn gyson | |
| b) Datblygu empathi, strategaethau i reoli emosiynau | |
| c) Mynegi eu teimladau | ✓ |
| **3. Mae'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau ni a bywydau eraill** | |
| a)Deall sut mae penderfyniadau a gweithredoedd yn cael effaith ar eu hunain, ac ar y gymdeithas, a hynny yn y presennol a'r dyfodol. Deall y ffactorau sy'n dylanwadu ar wneud penderfyniadau | |
| b) Galluogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau meddwl beirniadol angenrheidiol er mwyn gallu pwyso a mesur goblygiadau posibl eu penderfyniadau, gan gynnwys y risg iddyn nhw ac i eraill | ✓ |
| c) Gwneud penderfyniadau ar y cyd – deall eu cyfraniad | |
| ch) Llwybrau gyrfa | ✓ |

| |
|---|
| **4. Mae’r ffordd rydym yn ymwneud â dylanwadau cymdeithasol yn ffurfio pwy ydyn ni, ac yn effeithio ar ein hiechyd a’n lles** |
| a) Deall rôl dylanwadau cymdeithasol ar eu bywydau. Rheolau, normau cymdeithasol, agweddau a gwerthoedd. Mae rhyngweithio’n effeithio ar ein hunaniaeth, ein gwerthoedd, ein hymddygiad a’n perthnasau |
| b) Mae dysgwyr yn ymwneud yn feirniadol â’r dylanwad cymdeithasol hwn |
| **5. Mae cydberthnasau iach yn hanfodol ar gyfer ein lles** |
| a) Deall a gwerthfawrogi sut mae’r ymdeimlad o berthyn a chyswllt a ddaw o berthnasau iach yn cael effaith bwerus ar iechyd a lles |
| b) Sylweddoli pan nad yw cydberthnasau yn iach, a bod yn ymwybodol o sut i fod yn ddiogel a cheisio cymorth |
| c) Deall y byddan nhw’n profi amrywiaeth o gydberthnasau, deall sut i feithrin a chynnal cydberthnasau, a sut mae cydberthnasau iach yn hanfodol er mwyn cynnal corff a meddwl iach, a fydd yn caniatáu inni ffynnu |

| | |
|---|---|
| **Cysylltiadau â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn**<br>• **Erthygl 13 –** Yr hawl i wybodaeth<br>• **Erthygl 33** – Dylech gael eich gwarchod rhag cyffuriau peryglus<br>• **Erthygl 36** – Dylech gael eich gwarchod rhag pethau sy’n eich niweidio<br>• **Erthygl 40** – Mae hawl gennych gael cymorth cyfreithiol a chael eich trin yn deg os cewch eich cyhuddo o dorri’r gyfraith | Mae’r adnodd hwn yn cefnogi ysgolion i ddatblygu eu hymagweddau tuag at **Les** a **Gofal, Cymorth a Chanllawiau** yn unol â gofynion Fframwaith Arolygu Cyffredin 2017 ESTYN. |
| **Y Gyfraith**<br>• **Deddf Plant 1989**<br>• Cadarnhawyd **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn 1989** (CU, 1989) gan y DU ar 16 Rhagfyr 1991.<br>• **Deddf Camddefnyddio Cyffuriau** 1971 | ***Diogelu plant: Cydweithio o dan Ddeddf Plant 2004***<br>(Llywodraeth Cymru.)<br>***Canllawiau ar gyfer Cadw Dysgwyr yn Ddiogel***<br>Cadw dysgwyr yn ddiogel \| LLYW.CYMRU<br>(Llywodraeth Cymru, 2021) |

| | |
|---|---|
| **Deilliannau Dysgu ar gyfer Disgyblion** | Bydd y wers hon yn eich helpu i:<br>• ddeall y gyfraith am feddu ar gyffuriau a’u cyflenwi<br>• gwybod beth sy’n digwydd os ydych chi’n cael eich stopio a’ch chwilio, ac yna’ch arestio<br>• deall sut mae pwysau gan gyfoedion yn dylanwadu ar bobl ifainc<br>• gwybod canlyniadau meddu ar Ganabis a’i gyflenwi<br>• gwybod sut i adrodd am drosedd<br>• gwybod ble i gael cymorth a chefnogaeth |

| | |
|---|---|
| **Adnoddau** | 1. PowerPoint y Wers<br>2. Cerdyn arddangos geiriau allweddol<br>3. Cerdyn Diffiniad Canabis<br>4. Cardiau Llun Cymeriadau<br>5. Amlinellau Mapiau Meddwl<br>6. Fffilm 12 munud o hyd 'Edifar y Dydd' |
| **Geiriau Allweddol** | **Canabis Meddu Cyflenwi Effaith Canlyniadau** |
| **Diffiniad** | **Mae canabis yn gyffur anghyfreithlon Dosbarth B.**<br>**Mae cyffur yn newid y ffordd mae eich meddwl a'ch corff yn gweithio.** |

| **Trosolwg y Wers** | | |
|---|---|---|
| Cyflwyniad | Asesu gwybodaeth a dysgu, adalw gwersi blaenorol, deilliannau dysgu. | 3 mun |
| Gweithgaredd 1 | Cwis Chwalu'r Chwedlau. Neges allweddol: Mae canabis yn gyffur anghyfreithlon. | 3 mun |
| Fffilm | Edifar y Dydd. | 13 mun |
| Meddu a Chyflenwi | Trafodaeth a darlun o feddu a chyflenwi. Stopio a Chwilio. | 6 mun |
| Gweithgaredd 2 | Cardiau Llun Cymeriadau. Pwysau gan gyfoedion. Gwytnwch yn erbyn dylanwadau. | 8 mun |
| *Dull Amgen* Gweithgaredd 2 | Dull cyflenwi byrrach ar gyfer Gweithgaredd 2. | 4 mun |
| Y Gyfraith a Chanlyniadau | Profiad Gareth unwaith y cafodd ei arestio a'i gymryd i ddalfa'r heddlu. Dosbarthiad a chosbau dan y gyfraith. | 7 mun |
| Gweithgaredd 3 | Y canlyniadau ar gyfer Gareth. | 7 mun |
| Cyfarfod Llawn | Mapio meddwl yr effaith ar deulu Gareth, ei ffrindiau a'r gymuned. | 3 mun |
| Cymorth, Cefnogaeth a Gwybodaeth | Adlewyrchu ar ddysgu, ei adolygu a'i asesu | 2 fun |